# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion

## Dydd Mercher 29 Mawrth 2023 / 12.30 - 13.30 (Yn bersonol ac ar-lein)

### Yn bresennol

**Hefin David AS** – Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion
**Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd dros Orllewin De Cymru
**David Rees AS** – Aelod o'r Senedd dros Aberafan
**Yr Athro Cara Carmichael Aitchison** – Is-Ganghellor Prifysgol Metropolitan Caerdydd
**Yr Athro Maria Hinfelaar** – Is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (Ar-lein)
**Dr Ben Calvert** – Is-Ganghellor PDC
**Orla Tarn** – Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru
**Harriet Barnes** – Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
**Alex Still** – Uwch Gynghorydd i Hefin David AS
**Amanda Wilkinson** – Cyfarwyddwr Prifysgolion Cymru
**Kieron Rees** – Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Prifysgolion Cymru
**Joshua Bell** – Cynghorydd Materion Cyhoeddus, Prifysgolion Cymru
**Hefin David AS** – Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion
**Steve Thomas** – Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth
**Alex Still** – Swyddfa Hefin David AS
**Darcie Kleuskens** – Ysgolhaig
**Amy Nguyen** – Ysgolhaig
**Lisa Childs** – Cyfarwyddwr Cymru, UCM Cymru
**Jamie Insole** – Swyddog Polisi, yr Undeb Prifysgolion a Cholegau
**Kevin McStravock** – Swyddog Polisi Arweiniol, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (Ar-lein)
**Ioan Bellin** – Swyddfa Rhys ab Owen AS
**Níamh Salkeld** – Swyddfa Grŵp Plaid Cymru
**Susana Galvan** – Cyfarwyddwr Gweithredol, Taith
**Jamie Arrowsmith** – Cyfarwyddwr UUKI (Ar-lein)
**Georgia Marks** – Cynghorydd Materion Cyhoeddus, UCAS
**Emilia Douglas** – Swyddfa Laura Anne Jones AS
**Matthew Wilks** – Rheolwr Ysgoloriaethau, Symudedd a Chynfyfyrwyr, Cymru Fyd-eang

### Cofnodion

Croesawodd Hefin David AS (Cadeirydd) yr holl westeion i'r cyfarfod.

### 1. Y dirwedd addysg ryngwladol

Rhoddodd Jamie Arrowsmith y wybodaeth ddiweddaraf am waith ymgysylltu UUKi â Llywodraeth y DU.

Nodwyd bod trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ynghylch dyfodol Horizon Europe. Cafodd y nifer uchaf erioed o geisiadau fisa ei nodi gan Jamie Arrowsmith.

### 2. Y sefyllfa yng Nghymru

Rhoddodd Dr Ben Calvert y wybodaeth ddiweddaraf am waith Rhwydwaith Rhyngwladol Prifysgolion Cymru.

Cafodd gwaith Cymru Fyd-eang ei gyflwyno gan Dr Calvert, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Astudio yng Nghymru. Cyflwynwyd dau o ysgolheigion Cymru Fyd-eang.

### 3. Safbwynt y myfyriwr

Rhannodd Amy Nguyen & Darcie Kleuskens, Ysgolheigion Cymru Fyd-Eang, eu profiadau o astudio yng Nghymru.

Nododd Darcie Kleuskens rinweddau'r rhaglen 'Can Teach' ac amlinellodd fanteision astudio yng Nghymru.

Tynnodd Amy Nguyen sylw at gostau byw is yng Nghymru, o gymharu â Fietnam, fel rheswm dros astudio yng Nghymru. Cafwyd canmoliaeth ar gyfer y tîm llety ym Mhrifysgol De Cymru.

### 4. Ymateb i'r gwrthdaro yn Wcráin

Rhoddodd yr Athro Cara Carmichael Aitchison y wybodaeth ddiweddaraf am flwyddyn gyntaf menter gefeillio Cymru/Wcráin.

Nodwyd bod pob prifysgol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y fenter hon, a nodwyd y llwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

### 5. Trafodaeth

Agorwyd y sesiwn ar gyfer trafodaeth ehangach.

Gofynnodd David Rees AS i Jamie Arrowsmith a drafodwyd y ffordd y caiff cymwysterau Wcráin eu halinio â chymwysterau'r Deyrnas Unedig. Gofynnwyd hefyd a oes unrhyw ddiweddariadau ar fframwaith Windsor.

Roedd Sioned Williams AS yn cydnabod pwysigrwydd y trafodaethau ar Horizon Europe a gofynnodd am ragor o wybodaeth am gynigion ar gyfer benthyciadau pontio.

Gofynnodd Orla Tarn gwestiwn am yr hyn sy'n cael ei wneud i gefnogi myfyrwyr rhyngwladol â'u gofynion o ran llety. Nodwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei godi ar ôl y cyfarfod.

Tynnodd Hefin David AS sylw at y rôl bwysig y gall Aelodau o'r Senedd ei chwarae wrth gefnogi myfyrwyr gyda materion o ran costau byw/llety.

Ymatebodd Jamie Arrowsmith i'r cwestiynau, gan nodi y bydd UUKi yn gweithio i ymgysylltu â swyddogion yn Gdansk.

Nododd yr Athro Cara Carmichael Aitchison fod gwaith diwyd yn cael ei wneud i alinio cymwysterau rhwng Wcráin/Cymru.

### 6. Diwedd y cyfarfod

Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2023, gyda'r meysydd trafod i'w cadarnhau.

## 7. Camau y cytunwyd arnynt

Cytunwyd ar gam gweithredu i drafod ysgrifennu llythyr at Jeremy Miles, y Gweinidog Addysg, yn tynnu sylw at waith Cymru Fyd-eang ar ran y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion.